PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

DYDD LLUN, 28 TACHWEDD 2022

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Cowan(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Ash-Edwards, Davies, Derbyshire, Goodway, Lay, Palmer, Jackie Parry, Simmons a/ac Thomson |

41 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd Naughton.

42 : DATGAN BUDDIANT

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant.

43 : COFNODION

Cymeradwywyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Medi 2022 yn gywir, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

44 : SEIBERDDIOGELWCH - CYFRINEIRIAU, DILYSU AML-FFACTOR (MFA) A DIOGELU DYFEISIAU SYMUDOL

Croesawodd y Cadeirydd y Pennaeth TGCh i gyflwyno'r adroddiad, a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am rai o'r mesurau rheoli Seiberddiogelwch sydd ar waith o amgylch systemau a data Cyngor Caerdydd.

Hysbyswyd yr Aelodau fod y Cyngor wedi adolygu'r penderfyniad i weithredu Dilysu Aml-ffactor (MFA), ar ôl derbyn adborth ynghylch mynychder y ceisiadau. Ystyrir bod cadw'r gofyniad i ailddilysu'n wythnosol yn briodol, gan fod cost yn gysylltiedig â defnyddio amddiffyniad ychwanegol.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod risgiau'n gysylltiedig â chaniatáu i Aelodau a swyddogion ddefnyddio'u dyfeisiau eu hunain i gael mynediad i systemau'r Cyngor. Caniateir defnyddio rhai dyfeisiau personol fel ffonau clyfar a llechi i gael mynediad at wasanaethau e-bost y Cyngor. Mae cyfleuster rheoli rhaglenni ar ddyfeisiau symudol yn galluogi'r Cyngor i reoli rhaglenni er mwyn caniatáu i bobl gael mynediad diogel i systemau'r Cyngor, a dileu data a rhaglenni o bell.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y Cyngor yn cael ei ystyried yn darged da ar gyfer ymosodiadau meddalwedd wystlo oherwydd ei faint a'r cyllid a reolir ganddo. Yng nghyfnod cynnar y dechnoleg dioddefodd ALlau ymosodiadau meddalwedd wystlo, a chymryd blynyddoedd i adfer, gyda pheth o'r data wedi'i golli am byth.

Gofynnodd yr aelodau am eglurhad ynghylch y gwahaniaeth rhwng ffôn symudol personol a dyfais arall bersonol fel Mac. Dywedodd y swyddogion fod systemau gweithredu ffonau symudol a llechi yn wahanol i systemau gweithredu dyfeisiau eraill. Mae gan y Cyngor yr offer i reoli cymwysiadau ar ffonau clyfar a thabledi, ond nid dyfeisiau eraill.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod gan Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad fynediad at offer diogelwch ychwanegol. Mae sefydliadau eraill yn defnyddio gwahanol offer diogelwch fel tracio geo-ofodol. Mae'r Cyngor yn gobeithio gallu rhoi mesurau diogelwch ychwanegol ar waith pan fydd ei gytundeb Microsoft yn cael ei adnewyddu yn 2024. Gallai hyn olygu bod modd adolygu polisïau diogelwch.

Trafododd yr Aelodau faterion amrywiol yn gysylltiedig â Dilysu Aml-ffactor, gan gynnwys hap-geisiadau a'r broblem fod y signal yn wan wrth ddefnyddio ffonau symudol y Cyngor. Dywedodd swyddogion fod dulliau dilysu wedi cael eu hadolygu, ac y casglwyd bod dulliau biometrig yn rhy gymhleth. Canfuwyd mai'r dull mwyaf addas oedd cynnig dewis i ddefnyddwyr o ddull dilysu 2il gam. Dywedwyd wrth yr aelodau y dylai'r ap dilysu ddefnyddio Wi-Fi yn ogystal â signal rhwydwaith symudol. Gellir defnyddio Wi-Fi hefyd ar gyfer teleffoni yn ogystal â data. Mae'r Cyngor yn ymwybodol o bocedi lle na cheir signal ar rwydwaith EE. Ceir cyfle i Gynghorwyr newid eu ffonau symudol i rwydwaith O2.

Mynegodd yr aelodau rwystredigaeth ynghylch y ffaith nad oeddent yn gallu defnyddio'r cyfleuster copïo a gludo ar ffonau symudol. Dywedodd y swyddogion yr ystyriwyd bod angen cyfyngu ar y cyfleuster hwn i ddibenion rheoli gwybodaeth. Cyngor y Comisiynydd Gwybodaeth a rheoli gwybodaeth yw peidio caniatáu copïo a gludo gwybodaeth allan o systemau a reolir gan y Cyngor i raglenni heb eu rheoli. Cyfeiriwyd at y ffaith ei bod yn bosibl osgoi'r math hwn o gyfyngiad. Dywedodd swyddogion fod hyn wedi'i drafod â rheoli gwybodaeth ac mai'r cyngor oedd ei bod hi'n well cael rhai mesurau rheoli ar waith na dim mesurau o gwbl. Ystyrir ei bod yn arbennig o bwysig cadw rheolaeth ar ddata'r Cyngor. Nid oes angen cyfyngiadau tebyg ar liniaduron y Cyngor gan eu bod yn ddyfeisiau a reolir gan y Cyngor.

Holodd yr aelodau pam bod angen cyfrineiriau ar wahân i fewngofnodi i ffôn symudol ac Outlook. Dywedodd swyddogion na allai'r Cyngor reoli cyfrineiriau ffonau symudol ond y gallai reoli cyfrineiriau ar gyfer rhaglenni. Ystyrir ei bod yn arfer da cael mesurau diogelwch amlhaenog ar ddyfeisiau.

Trafododd yr aelodau'r posibilrwydd o newid i drefniant ailddilysu pythefnosol. Dywedodd swyddogion fod Dilysu Aml-ffactor yn gweithio'n llyfnach pan fyddai defnyddwyr yn mewngofnodi'n ddyddiol. Mae angen cydamseru gwahanol ddyfeisiau, a gall hynny gymryd ychydig o funudau.

Trafododd yr aelodau'r ffaith nad oeddent yn gallu mewngofnodi i gyfrifon e-bost Microsoft gwahanol ar eu gliniaduron. Dywedodd y swyddogion mai polisi Microsoft oedd y rheswm am hyn, a bod trafodaethau wedi'u cynnal ynghylch y mater. Roedd Microsoft yn cymryd camau i ddatrys y broblem, er enghraifft mewn perthynas â chyfrifon e-bost Cymraeg a Saesneg.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y Pwyllgor Safonau a Moeseg wedi argymell y dylid adolygu protocol TGCh yr Aelodau.

Roedd yr aelodau'n awyddus i glywed yr adborth o'r ymgynghoriad. Dywedodd y swyddogion fod nifer o bryderon allweddol wedi'u codi, gan gynnwys y cyfleuster copïo a gludo a dilysu. Holodd yr aelodau pam nad oedd modd defnyddio dyfeisiau Apple ar rwydwaith y Cyngor. Dywedodd y swyddogion fod system TG y Cyngor yn seiliedig ar Microsoft, ac y byddai defnyddio dyfeisiau Apple hefyd yn creu goblygiadau o ran cost. Roedd problemau yn y rhyngwyneb rhwng gwahanol

feddalwedd, a byddai hyn yn creu pwysau ychwanegol ar adnoddau cymorth TG. Mae safoni ar un system yn ei gwneud hi'n haws i'r Cyngor gefnogi defnyddwyr.

Yn ystod yr ymgynghoriad roedd yr Aelodau hefyd wedi cyfeirio at broblem wrth ddefnyddio Zoom. Dywedodd y swyddogion nad oedd Aelodau'n cael eu rhwystro rhag defnyddio Zoom drwy eu porwr.

PENDERFYNWYD:

Nodi'r adroddiad.

45 : DIWEDDARIAD AM REOLI GWYBODAETH

Cyflwynodd Ian Allwood, Pennaeth Cyllid, yr adroddiad, a'i bwrpas oedd ymateb i'r ymholiadau a godwyd gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 5 Medi 2022 ynghylch y sesiwn orfodol ar Reoli Gwybodaeth a Diogelu Data a oedd yn cael ei darparu'n rhan o Raglen Gynefino'r Aelodau.

Roedd yr aelodau'n dymuno gwybod a fyddai'n bosib cyflwyno'r e-hyfforddiant ar draws yr holl sesiynau gorfodol i rai nad oeddent wedi cwblhau'r sesiynau hynny wyneb yn wyneb neu'n gyfunol. Dywedodd y swyddogion fod sesiynau wyneb yn wyneb pellach wedi'u trefnu ar gyfer Diogelu a Rhianta Corfforaethol, a bod rhai aelodau'n dal heb gwblhau'r sesiwn ar y Cod Ymddygiad. Y bwriad yw gorffen modiwlau wyneb yn wyneb, ac yn dilyn hynny bydd modd cwblhau unrhyw sesiynau gofynnol drwy e-ddysgu. Mae'n well i'r aelodau ddod i sesiynau wyneb yn wyneb am eu bod yn canolbwyntio ar Gaerdydd, tra bo'r modiwlau eDdysgu o natur gyffredinol. Dywedodd y swyddogion fod sesiynau gorfodol wedi'u trefnu fel eu bod yn gyfleus i'r Aelodau, ac y bu llawer o gyfleoedd i'r Aelodau fod yn bresennol.

Gobeithiai'r Aelodau fod yr Aelodau hynny nad oeddent wedi bod yn bresennol mewn sesiynau gorfodol wedi'u cyfeirio i sylw'r Chwipiau.

Dywedodd y swyddogion nad oedd unrhyw gosbau cyfreithiol am beidio cydymffurfio â sesiynau hyfforddi gorfodol. Roedd cosbau eraill posibl wedi cael eu trafod ag arweinwyr y grwpiau gwleidyddol, ond ni chafwyd unrhyw gytundeb ynghylch hynny.

Dywedodd swyddogion fod ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar bapur gwyn Llywodraeth Cymru, a oedd yn cynnwys cynigion ynghylch hyfforddiant gorfodol i aelodau etholedig.

Cyfeiriodd Aelodau at y broblem nad oedd aelodau'n gallu mynychu sesiynau oherwydd ymrwymiadau gwaith. Dywedodd y swyddogion eu bod yn deall bod gan gynghorwyr ymrwymiadau allanol. Mynegwyd y pwynt fod cynghorwyr yn derbyn tâl am eu swydd, a'i bod yn gyfrifoldeb arnynt i gyflawni'r ymrwymiadau angenrheidiol. Dywedwyd wrth y Cynghorwyr i gysylltu â'r swyddogion pe baent yn cael unrhyw anhawster.

Diolchodd yr aelodau am y canllawiau ysgrifenedig.

PENDERFYNWYD:

a) Cymeradwyo rhannu Rheoli Gwybodaeth: Canllaw i Aelodau Etholedig a Rheoli Gwybodaeth - Canllaw cyfeirio cyflym i Aelodau Etholedig â'r holl Aelodau Etholedig.
b) Cymeradwyo y dylid datblygu'r modiwl E-ddysgu Rheoli Gwybodaeth i Aelodau Etholedig yn gyfrwng i'r holl Aelodau Etholedig na fu modd iddynt fod yn bresennol wyneb yn wyneb yn y sesiwn Rheoli Gwybodaeth a Diogelu Data (RhGDD) gwblhau'r hyfforddiant hwn.
c) Cymeradwyo y dylid anfon cais at yr holl Aelodau Etholedig nad ydynt eto wedi cwblhau eu sesiwn RhGDD i ddweud wrthynt am wneud hynny drwy ddefnyddio'r modiwl Rheoli Gwybodaeth i Aelodau Etholedig 2022 erbyn 31 Ionawr 2023.
d) Cael y newyddion diweddaraf gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd am y cynnydd a wnaed wrth gwblhau'r hyfforddiant RhGDD yn ei gyfarfod nesaf.

46 : Y DIWEDDARAF AM WASANAETH YMHOLI'R AELODAU

Cyflwynodd Gary Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, yr adroddiad er mwyn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am berfformiad cyfredol System Ymholiadau'r Aelodau a'r cynnydd tuag at ddatblygu'r defnydd o'r system.

Dywedwyd wrth yr aelodau nad oedd y meysydd gwasanaeth wedi gallu bodloni'r CLG o 10 diwrnod gwaith gan fod nifer yr ymholiadau wedi cynyddu ers pandemig Covid.

Mae offer ychwanegol yn cael eu datblygu ar gyfer system adrodd HALO. Disgwylir i'r system sylfaenol ddod yn weithredol yn hwyrach yn 2023. Roedd y dyheadau am offer mwy datblygedig yn annhebygol o gael eu gwireddu cyn 2024-26.

Mae gwaith yn parhau i wella'r system, a bydd y rhain yn cael eu rhoi ar waith ar ôl iddynt gael eu profi.

Mynegodd yr Aelodau rwystredigaeth eu bod yn dal i gael problemau wrth geisio edrych ar gynnwys ymholiadau. Dywedodd y swyddogion fod rhai o'r problemau'n deillio o'r newid i'r system HALO, ac y byddai'r rheiny'n cael eu datrys yn fuan.

Mynegodd yr aelodau rwystredigaeth ei bod yn anodd canfod yr union swyddogion a oedd yn ymdrin ag ymholiadau cymhleth. Dywedodd y swyddogion y byddent yn ymdrechu i sicrhau ei bod hi'n haws i gynghorwyr wybod pa swyddog penodol a oedd yn ymdrin ag ymholiadau cymhleth.

Trafododd yr aelodau'r trefniadau i gaffael y system, a pham nad oedd system a chanddi'r offer adrodd angenrheidiol wedi'i chaffael. Dywedodd swyddogion fod system Halo yn cynnwys meddalwedd adrodd, ond bod angen ei datblygu ymhellach. Efallai y bydd modd cael data o feysydd gwasanaeth i'w harddangos yn gysylltiedig â materion yr oedd cynghorwyr am gael gwybod amdanynt.

Mynegodd yr Aelodau eu diolch am waith y tîm gwasanaethau Democrataidd wrth ymdrin ag ymholiadau'r Aelodau.

Mynegodd yr aelodau yr hoffent gael system awtomatig a fyddai'n olrhain ymatebion o fewn cyfnod penodedig. Dywedodd swyddogion fod tîm Gwasanaethau'r Aelodau

yn derbyn nodyn atgoffa o fewn 10 diwrnod os nad oedd ymateb wedi'i roi. Byddai'r swyddogion yn ymchwilio i system atgoffa i'r Aelodau.

Mynegodd yr Aelodau anfodlonrwydd bod aelodau'r cyhoedd yn derbyn ymatebion gan swyddogion enwebedig ond nad oedd hynny'n digwydd i'r Aelodau. Dywedodd y swyddogion y byddent yn ymchwilio i'r posibilrwydd o roi ymatebion enwebedig gan Oms.

Mynegodd yr aelodau rwystredigaeth fod angen agor ymholiad newydd i fynd ar drywydd ymholiad a oedd wedi'i gyflwyno eisoes.

Dywedodd y swyddogion eu bod wedi ymchwilio i broses adrodd dau gam, sy'n cynnwys CLG 10 diwrnod i gadarnhau bod ymholiad wedi'i gofnodi ac y byddai ymateb yn cael ei roi, gydag adolygiad dilynol ar ôl cwblhau'r ymholiad, a'r ymholiad yn parhau i fod ar agor nes iddo gael ei gwblhau. Roedd pryderon ynghylch y gwaith gweinyddol a oedd yn gysylltiedig â sicrhau bod ymatebion yn cael eu diweddaru gan feysydd gwasanaeth drwy ddefnyddio'u systemau meddalwedd eu hunain yn ogystal â HALO.

Cadarnhaodd y swyddogion fod swyddogion unigol wedi'u henwi fel llofnodwyr ar ymatebion e-bost i ymholiadau o fewn y trywydd e-bost. Byddent yn ymchwilio i'r posibilrwydd o enwi arweinwyr tîm mewn ymatebion terfynol.

Holodd yr aelodau a fyddai modd datblygu ap Caerdydd i ganiatáu mân ymholiadau. Dywedodd swyddogion fod yr ap wedi cael ei ddatblygu i alluogi aelodau o'r cyhoedd i gofnodi adroddiadau. Nid yw o reidrwydd yn rhoi ymateb. Mae'n porthi systemau maes gwasanaeth ond nid yw'n porthi'r System Ymholiadau'r Aelodau. Bydd swyddogion yn canfod a ellir ychwanegu at yr ap i alluogi hynny.

Gofynnodd yr aelodau am wybodaeth bellach ynghylch ehangder yr ymchwiliad i systemau meddalwedd posibl ar gyfer System Ymholiadau'r Aelodau. Dywedodd swyddogion fod system a oedd ar gael wedi cael ei hetifeddu, gan fod cost gychwynnol y system honno'n isel. Roedd y system wedi cael ei datblygu i greu'r system HALO, a oedd yn system dda o ran yr hyn yr oedd yn ceisio'i gyflawni. Mae meddalwedd rheoli achosion pwrpasol ar gael, gan gynnwys systemau gweithiwr achos. Rydym wedi ymchwilio i'r rhain, ond roedd y trwyddedau'n gostus. Fodd bynnag, roedd ffwythiannau ychwanegol y systemau hyn wedi'u nodi a thrafodaethau'n cael eu cynnal â HALO i'w datblygu o fewn System Ymholiadau'r Aelodau. Gellid holi HALO ynghylch y posibilrwydd o gynnwys gwelliannau pellach a awgrymwyd gan yr Aelodau.

PENDERFYNWYD:

Nodi cynnwys yr adroddiad.

## 47 : DIWEDDARIAD YNGHYLCH Y SYSTEM GYNADLEDDA CYFARFODYDD AML-LEOLIAD

Cyflwynodd Gary Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, yr adroddiad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ddefnydd y Cyngor o drefniadau cyfarfod aml-leoliad a pherfformiad system gynadledda'r Cyngor.

Dywedwyd wrth yr aelodau ei bod hi'n her integreiddio'r rhai a oedd yn bresennol yn yr ystafell a'r rhai a oedd yn bresennol o bell, ac nid oedd y system gynadledda flaenorol wedi gallu bodloni gofynion cyfarfodydd aml-leoliad o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae system EasyConf Connect yn darparu un llwyfan integredig sy'n cynnwys yr holl ffwythiannau gofynnol.

Nodwyd bod angen rhoi hyfforddiant pellach i'r Aelodau, ac mae cwrs gloywi TGCh wedi galluogi'r Aelodau i gael dyfeisiau cyfredol a all fodloni gofynion technolegol cyfarfodydd aml-leoliad. Dyma rai o'r problemau sydd wedi codi: heb fod yn gyfarwydd â'r feddalwedd; amrywiaeth y dyfeisiau; a methu sefydlu neu gynnal cysylltiad.

Bwriedir cyflwyno gwelliannau, gan gynnwys uwchraddio'r system gynadledda bresennol; uwchraddio'r cyfarpar cynadledda, fel bo modd defnyddio Microsoft Teams fel opsiwn wrth gefn; ychwanegu cyfleuster sgwrsio; uwchraddio'r feddalwedd ar gyfer pob Aelod; a hyfforddiant wyneb i Aelodau a chadeiryddion Pwyllgorau. Byddwn yn parhau i fonitro perfformiad y system dros y 3-6 mis nesaf.

Mynegwyd gwerthfawrogiad am amynedd yr Aelodau wrth wynebu'r heriau a'r rhwystredigaethau sy'n gysylltiedig ag addasu i'r system newydd.

Mynegodd yr aelodau rywfaint o amheuaeth ynghylch y system, ond roddent hefyd yn gobeithio y byddai'r problemau a oedd yn weddill yn cael eu datrys.

Holodd yr aelodau beth y gellid ei wneud i ymdrin â phroblemau cysylltedd wrth ddefnyddio'r system a oedd yn gysylltiedig â chapasiti band eang y Cyngor. Dywedodd y swyddogion fod y cysylltiad wedi methu ar adegau gan fod diweddariadau diogelwch Microsoft yn cael eu llwytho i lawr. Mae cyfran o'r band bellach wedi'i chadw ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor, a byddwn yn parhau i adolygu'r sefyllfa.

PENDERFYNWYD:

Nodi cynnwys yr adroddiad a'r camau sy'n cael eu cymryd i wella defnydd y cyngor o gyfarfodydd aml-leoliad.

48 : CYNLLUN GWEITHREDU DRAFFT Y DATGANIAD CYNGOR AMRYWIOL

Cyflwynodd Gary Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, yr adroddiad, a ofynnai i'r aelodau ystyried cynllun gweithredu drafft i gyflawni'r datganiad Cynllun Amrywiol a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 27 Ionawr 2022.

Dywedwyd wrth yr aelodau mai'r bwriad fu gweithredu'r datganiad mewn pryd ar gyfer etholiadau Llywodraeth Leol 2022; fodd bynnag, ni fu hyn yn bosibl a'r bwriad bellach oedd datblygu rhaglen yn y cyfnod hyd at etholiadau 2027. Mae nifer o gamau gweithredu wedi cael eu nodi i wella cynrychiolaeth ac amrywiaeth. Bydd yn rhaid defnyddio adnoddau sy'n bodoli eisoes i dalu am unrhyw gamau a gyflawnir.

Mae'r cynllun yn cydblethu â'r eitem sy'n dilyn, sef cyflawni Siarter CLILC, a bydd y cynllun a'r siarter wedi'u hymgorffori yn y Strategaeth Cyfranogiad sy'n cael ei datblygu gan y Cabinet.

Roedd yr aelodau'n dymuno gwybod pa wendidau a nodwyd yng nghynrychiolaeth yr Aelodau. Dywedodd y swyddogion fod ymgynghoriad wedi'i gynnal â chymunedau a grwpiau anodd eu cyrraedd er mwyn cael dealltwriaeth well o'r rhesymau dros ddiffyg ymgysylltiad a chyfranogiad. Bydd canlyniadau cael eu cysylltu â'r Arolwg Amrywiaeth, a'u mapio yn erbyn data'r cyfrifiad a data eraill i asesu tegwch y gynrychiolaeth.

PENDERFYNWYD:

a) Nodi cynnwys yr adroddiad a'r atodiadau.
b) Derbyn adroddiad yn ôl ar ganlyniadau'r ymgynghoriad â chymunedau a grwpiau anodd eu cyrraedd, a'r Arolwg Amrywiaeth, cyn argymell y dylid cyflwyno drafft Cynllun Gweithredu'r Datganiad Cyngor Amrywiol i'w gymeradwyo gan y Cyngor.

49 : CYFLAWNI SIARTER CLLLC AR GYFER CYNORTHWYO A DATBLYGU AELODAU

Cyflwynodd Gary Jones, y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, yr adroddiad er mwyn ystyried y gofynion angenrheidiol i gyflawni Siarter CLILC ar gyfer Cynorthwyo a Datblygu Aelodau.

Dywedwyd wrth yr aelodau fod cynllun gweithredu wedi'i greu ac ynddo'r camau allweddol i'w cyflawni cyn ymgeisio am Siarter CLILC, gan gynnwys camau i sicrhau bod trefniadau wedi'u gwneud i bob aelod gael cynnig Adolygiad Datblygiad Personol (ADP); bod darpar ymgeiswyr, ymgeiswyr ac aelodau newydd yn cael gwybod beth yw eu rolau a'u cyfrifoldebau; cynnig cyfle i'r aelodau gael eu mentora gan gyd-Aelodau; a darparu adnoddau gwybodaeth.

Dywedwyd wrth yr aelodau y byddai'r Siarter yn cael ei hadolygu a'i diweddaru ym mis Ebrill 2023.

Gofynnodd yr aelodau am wybodaeth am oblygiadau cyflawni'r Siarter o ran adnoddau. Dywedodd y swyddogion y byddai'n rhaid cynnal trafodaethau ag Adnoddau Dynol ynghylch proses yr ADP, a'r posibilrwydd o'i symleiddio. Un o feini prawf y Siarter yw bod pawb sy'n derbyn cyflog uwch gael ADP, ac eithrio'r Arweinydd; er bod rhai ALlau wedi nodi unigolion fel arweinwyr cynghorau eraill er mwyn galluogi Arweinydd y Cyngor i gynnal ADP.

Mynegodd yr aelodau bryder fod rôl cynghorydd yn cael ei hystyried yn gyflogaeth, a nodwyd bod gan gyflogeion fesurau i'w diogelu nad oedd gan gynghorwyr. Mynegwyd y farn y dylid cydnabod natur arbennig swyddi etholedig, gan nodi bod aelodau etholedig yn cael eu 'cyflogi' gan eu hetholwyr yn hytrach na'r Cyngor. Ar gyfer aelodau a oedd wedi'u hethol i'r Cabinet am y tro cyntaf, dywedodd swyddogion y gallai trafodaeth flynyddol am ddatblygiad â chydweithiwr profiadol fod yn fuddiol.

Mynegodd yr aelodau bryder y gallai'r broses roi camargraff o sicrwydd i aelodau Cabinet, gan nodi mai penodiadau gwleidyddol yw penodiadau i'r Cabinet, ac y gall yr Arweinydd eu haddasu neu eu tynnu'n ôl am resymau gwleidyddol yn hytrach nag am danberfformio yn y rôl. Dywedodd y swyddogion nad oedd y broses ADP yn gysylltiedig â pherfformiad ond ei bod yn golygu cynnig cefnogaeth i wella yn y rôl.

Holodd yr aelodau pam bod angen proses ffurfiol, yn hytrach na threfniadau anffurfiol yn ôl dymuniad yr aelodau. Dywedodd y swyddogion y gellid ystyried hyn wrth adolygu'r Siarter.

Mynegodd yr aelodau'r farn, er bod achos o blaid cynnal trafodaethau am ddatblygiad personol ag aelodau newydd a phobl sydd newydd gael eu penodi i rolau, ni ddylai hynny gael ei gynnwys yn rhan o broses ADP ffurfiol, a fyddai'n awgrymu bod cysylltiad rhwng hynny a pherfformiad a chyflogaeth.

Mynegodd yr aelodau'r farn y gallai fod yn briodol i chwipiau drafod datblygiad personol ag aelodau newydd, ond nodwyd nad oedd chwipiau yn derbyn cyflog.

Oherwydd ei maint, awgrymodd yr aelodau y gallai fod yn fwy defnyddiol cymharu Caerdydd â rhai o'r ALlau mwy yn y DU, yn hytrach nag ALlau yng Nghymru. Dywedodd y swyddogion nad oedd Cyngor Abertawe wedi ymrwymo i'r Siarter. Fodd bynnag, mae Rhondda Cynon Taf, sydd o faint tebyg, wedi cyflawni'r Siarter Uwch ddwywaith, ac fe'i hystyrir yn enghraifft o arfer da.

Mynegodd yr aelodau'r farn y dylid rhoi'r gorau i'r Siarter. Dywedodd y swyddogion fod y Cyngor wedi cytuno i weithio tuag at y Siarter, ac y byddai gwrthdroi'r penderfyniad hwnnw'n golygu bod angen diwygio'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb.

PENDERFYNWYD:

Ystyried y Siarter ddiwygiedig ar ôl Ebrill 2023 a’i chyfeirio i sylw'r grwpiau gwleidyddol er ystyriaeth.

50 : RHESTR TALIADAU 2023-2024

Cyflwynodd Gary Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, yr adroddiad er mwyn ystyried cynigion adroddiad drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (PACGA) ('Y Panel') ynghylch lefelau taliadau a lwfansau'r Aelodau, ac ychwanegiad at y dyletswyddau cymeradwy a oedd wedi'u cynnwys yn Rhestr Taliadau Aelodau Cyngor Caerdydd.

Hysbyswyd yr Aelodau fod PACGA yn cynnig codi Cyflog Sylfaenol yr Aelodau o £16,800 i £17,600, ac y dylid codi Cyflogau Uwch yn unol â swm y cynnydd i'r Cyflog Sylfaenol.

Dywedwyd wrth yr aelodau mai pwrpas yr ychwanegiad a gynigiwyd at Restr Taliadau'r Aelodau oedd rhoi cydnabyddiaeth deg i adlewyrchu'r dyletswyddau a gyflawnir gan Aelodau etholedig a benodir gan y Cyngor i ddyletswyddau fel Cadeirydd Pwyllgor.

Dywedwyd wrth yr aelodau mai'r dyddiad cau ar gyfer ymatebion oedd 1 Rhagfyr 2022, ond y byddai modd gofyn i PACGA am gael estyn y cyfnod ymgynghori.

Mynegodd yr aelodau'r farn y byddai'n briodol cyfeirio cwestiynau'r ymgynghoriad i sylw'r grwpiau gwleidyddol er trafodaeth.

Gofynnodd yr aelodau am gadarnhad ynghylch a fyddai modd i gynghorau benderfynu pennu taliadau cydnabyddiaeth a oedd yn is na'r hyn a gynigiwyd gan PACGA. Dywedodd y swyddogion nad oedd hyn yn bosib, ond y gallai Aelodau unigol ddewis ildio eu holl dâl cydnabyddiaeth neu gynnydd i'w tâl cydnabyddiaeth, neu gyfran o hynny.

PENDERFYNWYD:

a) Cyfeirio adroddiad PACGA a'r cwestiynau ymgynghori i'r holl Aelodau er trafodaeth, a disgwyl am ymatebion gan yr Aelodau a'r grwpiau.
b) Gofyn i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd goladu a dadansoddi'r ymatebion.
c) Dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, i baratoi ymatebion priodol a'u cyflwyno i PACGA.
d) Argymell y rhestr ddiwygiedig o "Ddyletswyddau Cymeradwy" yn Atodlen 2 o Restr Taliadau Cydnabyddiaeth yr Aelodau 2022/23 i'r Cyngor, i'w chymeradwyo a'i mabwysiadu.

51 : GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD - GWEITHGAREDDAU A GWASANAETHAU CYMORTH

Cyflwynodd Gary Jones, y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, yr adroddiad er mwyn
rhoi gwybod i'r Pwyllgor am berfformiad Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor ers y cyfarfod diwethaf ar 5 Medi 2022.

Rhoddwyd diweddariad ynghylch nifer y sesiynau datblygu'r aelodau a oedd wedi'u cwblhau, ac ynghylch sesiynau datblygu'r aelodau a oedd wedi'u hamserlennu a'u cynllunio, a'r pynciau i'w trafod. Awgrymwyd pynciau dysgu posibl i'w hystyried i'r dyfodol.

Dywedwyd wrth yr aelodau y byddai data cymharol o'r Arolwg Proffil Demograffig yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf ym mis Ionawr 2023.

Roedd nifer o gynigion wedi'u cyflwyno er mwyn creu arbedion yng nghyllideb y Gwasanaethau Democrataidd. Mynegodd yr aelodau'r farn y dylai costau democratiaeth fod wedi'u neilltuo.

PENDERFYNWYD:

a) Nodi'r wybodaeth a oedd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad.
b) Rhoi'r flaenoriaeth i'r pynciau canlynol a oedd wedi'u cynllunio ar gyfer sesiynau datblygu'r aelodau: Caerdydd Gyfeillgar i Ddementia; Ymwybyddiaeth o Gaerdydd sy'n Gyfeillgar i Oed; Hawliau'r Plentyn ar Waith; a Fast Track Cities.
c) Cadw'r hyn a gynigiwyd fel testunau datblygu'r aelodau posibl i'r dyfodol dan ystyriaeth i'w cynnwys yn yr amserlenni, oni fydd testunau eraill yn codi ac yn cael y flaenoriaeth.
d) Cymeradwyo cyflwyno adroddiad arolwg amrywiaeth cymharol yn ei gyfarfod nesaf ar 23 Ionawr 23

e) Nodi y gall arbedion cyllidebol effeithio ar wasanaethau a nodi unrhyw gyfleoedd posibl i arbed yng nghyllideb y Gwasanaethau Democrataidd.

## 52 : Y FLAENRAGLEN WAITH

Rhoddodd Gary Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, ddiweddariad i'r Aelodau ar bynciau i'w cynnwys ym Mlaenraglen y Pwyllgor.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo Blaenraglen Waith y Pwyllgor

## 53 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Nid oedd unrhyw eitemau brys wedi dod i law.

## 54 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 6 Chwefror 2023.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.05 pm